# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 26 Mai 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwr William N Owen.

**16.32. Cofnodion cyfarfod 28 April 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.33. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.23.1 Gwasanaeth Ysbwriel ac Ailgylchu Bore Sadwrn ym Machynlleth. Cadarnhaodd Cyng Gwilym Fychan fod y Cyngor Sir wedi penderfynnu bod y gwasanaeth ailgylchu nwyddau mawr yn mynd i gael ei gynnal pob pythefnos tan diwedd Mis Awst ac wedyn yn gorffen yn cyfanbwbl. Ni fydd y gwasanaeth yma yn derbyn bagiau duon yn y cyfamser. Ychwanegodd Cyng Fychan fod y penderfyniad yma yn siomedig ond mae'r Cyngor Sir yn gwynebu sefyllfa ariannol anodd dros ben.
16.23.7. Pryderon am y sefyllfa gyda llogi ymweliad ym Meddygfa Glantwymyn. Darllenodd y Clerc llythr gan Mrs Marilyn Shields, Rheolwr y Meddygfa, ynglyn pryderon y Cynghorwyr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwasgu y Meddygfa am gwell ateb ynglyn a phryderon y Cynghorwyr am y problem o cael ateb gan y meddygfa ar y ffon ac hefyd i codi amheuon am y sefyllfa gyda archebu "repeat prescriptions".
16.30.11. Llythr gan Mr Dafydd Jones, Prifathro Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod y cyfarfod rhwng yr ysgol a Cynghorwyr Tref Machynlleth wedi bod yn un positif iawn. Siom felly oedd gweld erthygl negyddol iawn yn y papur newydd oherwydd sylwadau un unigolyn oedd ddim hyd yn oed yn y cyfarfod. Gobeithir cael rhagor o cyfarfodydd yn y dyfodol gyda gwahoddiad yn mynd i Gynghorwyr cymunedau yr ardal yn ogystal i Gynghorwyr y Dref.

**16.34. Cynllunio.**
34.1 P/2016/0066. Cais am ddatblygiad sylweddol ar tir ger Era Terrace, Ceinws. Eglurodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir i wrthwynebu'r cais ond erbyn hyn mae'r caes wedi cael ei gohirio.
34.2 P/2016/0469. Cais am estyniad i'r caniatad i ddatblygu'r hen Capel yn Abercegir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi yr estyniad.
34.3 USE/2013/0182. Defnydd adeilad ar Tir Heddwch, Commins Coch. Darllenodd allan y Clerc e-bost gan Mr Nicholas Morgan, Cyngor Sir Powys, yn egluro fod yr ymchwiliad yma wedi dod i ben oherwydd fod dim digon o tystiolaeth fod yr adeilad yn cael eu defnyddio fel cartref ar hyn o bryd.

**16.35. Eitemau i'w talu.**
Dim.

**16.36. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
36.1 Cais am arian i wella y cyfleusterau ogwmpas y Canolfan yng Nglantwymyn. Rhoddodd Cyng Sion Ifans crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf. Eglurodd fod y syniadau hyd yn hyn yn cynnwys addasu y cae chwarae gyda wyneb pob tywydd, gwella'r sefyllfa parcio o gwmpas y Canolfan a gwella'r cyfleusterau i'r anabl o fewn y Ganolfan. Ychwanegodd Cyng Gwilym Fychan fod cais arall mewn bodolaeth gan y Cyngor Sir i wella cyfleusterau i'r ysgol ac mi fyddai yn ddoeth siarad gyda swyddogion y Cyngor Sir i thrafod y sefyllfa. Cytunwyd mi fydd yr is-bwyllgor yn trefnu i cwrdd gyda swyddogion y Cyngor Sir.

36.2 Cronfa Cymunedol Melynau Gwynt Dyffryn Dulas. Rhoddodd Cyng Gwen Lloyd crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf. Eglurodd fod yr arian ar gael yn y Gronfa tua £3,000 ac fod Cyng Janet Davies o Gyngor Cymuned Corris wedi ymuno gyda pwyllgor y cronfa. Ychwanegodd Gwen fod y pwyllgor wedi cytuno fe ddylai unrhyw gwariant aros o fewn ardal Cyngor Cymuned Glantwymyn neu Cyngor Cymuned Corris.
36.3 Llywodraethwyr. Eglurodd Cyng Aled Griffiths mi fydd Penaeth y federasiwn ysgolion lleol, Mr Nigel Hughes, yn ymddeol cyn bo hir. Gobeithir mi fydd ei olynydd yn cael ei enwi cyn bo hir. Ychwanegodd fod yna amheuon am yr effaith fydd y newid yn yr oedran cychwyn ysgol yn cael ar cyllid pob ysgol ac hefyd pryderon am penderfyniad y Cyngor Sir i torri'r arian tuag at y Clwb Brecwast.
36.4 Fforwm Cleifion. Eglurodd y Cadeirydd, Cyng Gwenfair Davies fod y fforwm wedi clywed fod y darpariaeth newydd i glanhau clustiau yn y meddygfa yn gweithio yn dda a gobeithir fydd deintydd newydd yn dod i Fachynlleth mewn tua tri mis. Ychwanegodd Cyng Gwilym Fychan fod y cynllyn cydweithio rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Powys wedi cael canmoliaeth.

**16.37. Gohebiaeth.**
37.1 E-bost gan Mr Carl Cooper, PAVO, yn cadarnhau mi fydd cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Sir Powys yn cae ei gynnal ar 20 Mehefin 2016 i thrafod dyfodol gwasanaethau i'r ieuenctid ym Mhowys. Mae yna croeso i'r Cynghorwyr mynychu y cyfarfod.
37.2 E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys, gyda manylion y gwasanaeth ysbwriel dros cyfnod Gwyl y Banc.
37.3 E-bost gan Angharad Hobbs, Cymorth Cynllunio Cymru, ynglyn a cwrs hyfforddiant cynllunio yn y Trallwng ar 19 Gorffenaf 2016.
37.4 E-bost gan Wendi Huggett, Un Llais Cymru, ynglyn a cwrs hyfforddiant sgiliau cadeirio ym Machynlleth ar 7 Mehefin 2016. Cytunwyd mi fydd yr Is Cadeirydd, Cyng Dafydd Evans, yn mynychu'r cwrs yma.

**16.38. Unrhyw fater arall.**
38.1 Eglurodd Cyng Aled Griffiths a Chyng Gareth Owen fod yna pryderon ym mhentref Cemaes am cyflwr yr hen toiledau. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ddylai'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir am crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf.
38.2 Eglurodd Cyng Dafydd Evans fod yna pryder yn Llanwrin am diogelwch plant a hen bobl yn y pentref oherwydd ymddygiad un ci yn arbennig. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mi fydd y Clerc yn cael sgwrs gyda'r Heddlu lleol am y sefyllfa.
38.3 Eglurodd Cyng Dafydd Evans fod yna pryderon am ysbwriel yn mannau cefn gwlad. Un man lle mae'r problem wedi dod i'r Golwg ydy uwchben Fferm Poesnant ar y ffordd fawr i'r gorllewin i Glantwymyn. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
38.3 Eglurodd Cyng Paul Hughes fod y gwrych uwchben Poesnant yn creu problemau i cerbydau yn dod allan i'r ffordd fawr. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
38.4 Eglurodd Cyng Ann Williams fod yna problem gyda un o'r goleuadau ym mhentref Cwmlline. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi dod a'r sefyllfa i sylw swyddogion y Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 30 Mehefin 2016.**